

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Luc 10: 38-42




ADNOD ALLWEDDOL
Luc 10: 42

Gofynnwch i rywun eich
helpu i chwilio am yr adnod
hon.

Stori I Iesu'n Dysgu.

Ydych chi'n hoffi pan fydd pobl ddierth yn dod i'ch tŷ chi? Mae llawer o bethau i'w gwneud cyn iddyn nhw gyrraedd – tacluso a glanhau'r tŷ, siopa a gwneud bwyd. Efallai'ch bod chi'n helpu weithiau. Roedd Martha'n byw ym mhentref Bethania. Roedd hi'n garedig iawn wedi gofyn i'r Arglwydd Iesu a'i ddisgyblion ddod i'w thŷ. Roedd Martha eisiau gwneud ei gorau iddyn nhw – roedd Iesu'n ffrind arbennig iawn.




C Lle oedd Martha'n byw? B _____.

C Ysgrifennwch enw'r ffrind arbennig ar y cerdyn.

Yr A _____ I _____

C Pwy arall oedd yn dod? Ei dd _____.

Cyn hir, daeth y bobl ddierth. Ond roedd llawer o bethau gan Martha i'w gwneud o hyd. Doedd ganddi ddim amser i eistedd i lawr i sgwrsio. Pan oedd hi'n brysur yn gwneud y bwyd, roedd ei chwaer, Mair, yn eistedd wrth draed Iesu'n gwrandao arno'n siarad.




Roedd Martha'n mynd yn fwy a mwy blin a chrac. Doedd neb yn ei helpu. Roedd wedi cael llond bola! Aeth i'r man lle'r oedd Iesu'n eistedd gyda Mair. "Arglwydd, mae fy chwaer wedi fy ngadael i wneud y gwaith i gyd ar fy mhen fy hunan. Dwed wrthi ddod i fy helpu i," meddai Martha. Siaradodd Iesu'n garedig â Martha. Dywedodd wrthi nad oedd angen iddi fynd i'r holl drafferth a mynd i banic. Roedd Martha'n gwneud rhywbeth da, yn gwneud bwyd blasus i Iesu, ond nid dyna'r peth pwysicaf ar y pryd. Roedd hi wedi colli clywed Iesu'n siarad. Mair oedd wedi gwneud y peth gorau - eistedd i wrando ar Iesu.

C Tynnwch linell i ddangos beth a wnaeth Mair a Martha.
(Defnyddiwch bensil lliw gwahanol ar gyfer y ddwy chwaer)

Mair


Martha



Mae'n bwysig ein bod ninnau'n gwneud amser i wrando'n ofalus ar beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym ac i ddysgu o'i Air Ef, y Beibl.

C Lliwiwch y geiriau a'r llun.

Y Beibl



C Beth yw'r peth pwysicaf i ni ei wneud?
Rhowch linell dan yr ateb cywir.

Bod yn brysur yn chwarae a chael hwyl.
Gwrando ar Iesu a bod yn ufudd iddo.